Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Menter a Dysgu

Ymchwiliad newydd – cylch gorchwyl

Mae Pwyllgor Menter a Dysgu y Cynulliad Cenedlaethol yn dymuno cynnal ymchwiliad i 'Rôl mentrau cymdeithasol yn economi Cymru'.

Materion o ddiddordeb i'r Pwyllgor

- Graddfa a natur y sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru
- Y cyfleodd presennol a'r cyfleoedd posibl ar gyfer datblygu economaidd ac adfywio cymuned cynaliadwy a gyflwynwyd gan y model busnes mentrau cymdeithasol
- Yr heriau sy'n wynebu mentrau cymdeithasol yng Nghymru (gan gynnwys mynediad at gyllid; sicrhau cyllideb a grantiau; a sicrhau cynaliadwyedd a hyfywedd economaidd)
- Dull Llywodraeth Cymru o gefnogi mentrau cymdeithasol, gan gynnwys rhoi Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol 2009 ar waith, ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn 'Mapio gweithgarwch mentrau cymdeithasol yng Nghymru - Deall er mwyn Dylanwadu'
- Y cymorth a'r cyngor busnes sydd ar gael ar gyfer mentrau cymdeithasol ac entrepreneuriaid cymdeithasol a pha mor briodol yw
- Yr heriau a'r cyfleoedd a gyflwynir gan gaffael yn y sector cyhoeddus
- Arloesi cymdeithasol – y potensial i fentrau cymdeithasol ddatblygu atebion newydd ac arloesol i rai o'r prif heriau sy'n wynebu Cymru yn y dyfodol (DS Yn y Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i archwilio sut y gellir ail-greu'r model Glas Cymru i ddatblygu agweddau ar foderneiddio gwasanaethau cyhoeddus)

Amserlen

Mae tri chyfarfod wedi'u trefnu ar gyfer yr ymchwiliad hwn (1, 8 a 15 Gorffennaf).

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael tystiolaeth ysgrifenedig gan unrhyw unigolyn neu sefydliad sydd â diddordeb.

Dylid anfon unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig at Glerc y Pwyllgor drwy e-bost neu yn y post erbyn 1 Gorffennaf:

Y Pwyllgor Menter a Dysgu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Gwasanaeth y Pwyllgorau
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Enterprise.learning.comm@Wales.gsi.gov.uk